Rhif: WG29831

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 (WelTAG 2017)

26 Hydref 2017

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-820-0

## Tabl Cynnwys

CYFLWYNIAD ........ 2
CEFNDIR YR YMGYNGHORIAD ........ 2
Pwy ymatebodd? ........ 2
YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD ........ 3
Y Brif Ddogfen ........ 3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 5
Nodiadau cynghori ........ 6
Hyfforddiant a chymorth ........ 7
Sylwadau eraill ........ 8
Y camau nesaf ........ 9

## CYFLWYNIAD

Cyhoeddwyd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn 2008. Fe'i cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi arweiniad ar ddatblygu, arfarnu a gwerthuso prosiectau trafnidiaeth. Mae'r arweiniad wedi'i addasu i adlewyrchu'r arferion gorau diweddaraf yn y maes ac i fod yn gyson â'r Model Busnes Pum Achos sy'n fodel cyffredin ar gyfer paratoi achosion busnes sy'n cael eu cyflwyno gyda cheisiadau am arian gan y sector cyhoeddus. Manteisiwyd ar y cyfle i gwtogi'r arweiniad ac i ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r atebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r atebion hynny.

## CEFNDIR YR YMGYNGHORIAD

Cafodd ein dogfen ymgynghori "Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 (WelTAG 2017)"[1] ei lansio gan Ken Skates AC. Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, ar 8 Rhagfyr 2016. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Mawrth 2017 a daeth 23 o ymatebion i law.

### Pwy ymatebodd?

Cafwyd ymatebion gan sefydliadau oedd yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau ac amrywiaeth o ardaloedd:

| Ymatebion gan Sefydliadau | |
|---|---|
| Llywodraeth Leol - awdurdod lleol | **7** |
| Llywodraeth Leol - cyngor cymuned | **1** |
| Llywodraeth Ganolog | **3** |
| Corff Cyhoeddus | **1** |
| Ymgynghorydd | **4** |
| Sefydliad Proffesiynol | **2** |
| Elusen | **3** |
| Grŵp Ymgyrchu | **1** |
| Unigolyn | **1** |
| | **23** |

| Ymatebion yn ôl Lle | |
|---|---|
| **Cymru gyfan** | **14** |
| **Y Gogledd** | **3** |
| **Y Canolbarth** | **1** |
| **Y De-orllewin** | **1** |
| **Y De-ddwyrain** | **3** |
| **Anhysbys** | **1** |
| | **23** |

[1] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/arweiniad-ar-arfarnu-trafnidiaeth-cymru-2017

**YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

## Y Brif Ddogfen

**Cwestiwn 1**: **Ydych chi'n teimlo bod WelTAG 2017 yn broses well ar gyfer datblygu, arfarnu, a gwerthuso prosiectau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth?**

| Ydw | Nac ydw | Dim ateb / ansicr |
|---|---|---|
| 17 (74%) | 3 (13%) | 3 (13%) |

Roedd mwyafrif y rheini a atebodd yn cytuno bod WelTAG 2017 yn broses well ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso prosiectau trafnidiaeth. Roedd croeso brwd i'r cysylltiad â'r Model Pum Achos.

> *'The principle of evaluating transport issues via this document seems quite a thorough way of analysing road and transport issues for Wales'*
>
> *'The document clearly explains the principles of the new WelTAG Appraisal methodology and the structure and stages of the appraisal process. The integration of the Weltag Appraisal Stages with the Welsh Government and UK Treasury's Five Case Model for Public Sector Business Cases is welcomed'*

Roedd rhesymau'r ychydig oedd yn anghytuno yn amrywio a gellir eu crynhoi isod:

1. Gormod o ganolbwyntio ar y problemau yn hytrach na'r amcanion:

    > *"my concern is it is still written from the aspect that the 'issue' raised is still seen to be from a motorised vehicle or transport aspect. Given the new emphasis on active travel… it would be just as valid to express an issue as 'it is difficult to cycle from Mold to Chester'*
    >
    > *'Transport planning in Wales has been reactive or 'problem-oriented'. The risk with this approach is that, in developing a plan around addressing problems, piecemeal or short-term 'solutions' emerge often to the detriment of pre-existing infrastructure, like canals'*

2. Mae i'w weld yn gymhleth, yn dreth ar amser, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol:

    > *'The WelTAG process is often complicated and time consuming'*
    >
    > *'Since the decision to reduce funding allocation to local government, many services and specialist skills are no longer available 'in-house' and therefore technical appraisal work – such as WelTAG – will inevitably be out-sourced'*

3. Diffyg arweiniad manwl, yn enwedig o ran cynnal arfarniad technegol.

> *‘The document is ambiguous and will lead to a wide variation in the quality of business case submissions’*
>
> *‘There is insufficient guidance on what technical data should be’*

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn croesawu mwyafrif yr ymatebion sy'n credu bod WelTAG 2017 yn broses well ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso prosiectau trafnidiaeth.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd a byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw trwy wella'r arweiniad terfynol, nodiadau technegol a gweithdai i ddefnyddwyr rheolaidd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cwestiwn 2: Mae WelTAG 2017 wedi ei ysgrifennu i gynnwys nodau, amcanion a ffyrdd o weithio sydd wedi’u pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. A oes meysydd penodol ble y mae angen gwella neu gryfhau y ddogfen?**

| Ydw | Nac ydw | Dim ateb / ansicr |
|---|---|---|
| 16<br>(70%) | 2<br>(9%) | 5<br>(21%) |

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod agweddau ar WelTAG 2017, mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae angen eu gwella, roedd rhai sylwadau'n ymwneud â gwelliannau cyffredinol i'r ddogfen.

Ystyrir y sylwadau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yma; rhoddir sylw i'r gwelliannau cyffredinol a gynigir yng nghwestiwn 5 - unrhyw sylwadau eraill.

O'r ymatebwyr oedd yn cytuno bod angen cryfhau WelTAG 2017 o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd y mwyafrif am weld mwy o eglurder ac arweiniad penodol ar:

- Sut mae ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth bennu amcanion;
- Sut i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth asesu effeithiau; a
- Sut i ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid galw achos trafnidiaeth yn achos 'cynaliadwyedd': “*we feel that ‘sustainability case’ would be a better term and would further enable to appraisal process to be better aligned with the Well-being of Future Generations Act”.*

Dywedodd un ymatebydd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ychwanegu effeithiau diwylliannol at y 3 colofn cynaliadwyedd flaenorol (cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd). Maent wedi'u crynhoi yn y golofn gymdeithasol, ond ceir rhai effeithiau diwylliannol sy'n gysylltiedig â'r effeithiau amgylcheddol hefyd, e.e. treftadaeth ddiwylliannol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn nodi y gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ofyn am ragor o arweiniad ar sut i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn rhoi mwy o arweiniad trwy wella'r brif ddogfen, arweiniad ategol a gweithdai i ddefnyddwyr rheolaidd.

## Nodiadau cynghori

**Cwestiwn 3: Ein bwriad yw cynnig Nodiadau Cynghori i gyd-fynd â WelTAG 2017. Pa nodiadau cynghori fyddech chi'n teimlo fyddai o gymorth?**

Gwnaeth 87% o'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn. Gellir rhannu'r nodiadau cynghori'n grwpiau o dan y penawdau canlynol:

- Arweiniad cyffredinol ar ddefnyddio WelTAG;
- Arweiniad technegol ar ddefnyddio WelTAG;
- Ffynonellau gwybodaeth.

Arweiniad ar ddefnyddio WelTAG:

- Templedi ac enghreifftiau ynghylch sut i gymhwyso WelTAG i gynlluniau o wahanol fathau a chymhlethdodau;
- Cyngor ar sgôp a chynnwys Adroddiadau'r Camau a'r Adroddiad Asesu Effeithiau;
- Rôl y sefydliadau;
- Rôl y grwpiau arolygu;
- Arweiniad ar ymgysylltu, ymgynghori ac adborth;
- Arweiniad ar gyfer defnyddwyr newydd a chleientiaid sy'n comisiynu WelTAG; a
- Rhestr termau.

Arweiniad technegol:

- Meini prawf y raddfa saith pwynt;
- Cyngor ar sut i bwysoli'r meini prawf;
- Asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol;
- Y gwaith monitro sydd ei angen ym mhob cam e.e. data traffig; a
- Gofynion modelu.

Ffynonellau gwybodaeth:

- Polisïau'r Llywodraeth;
- Strategaethau;
- Deddfwriaeth;
- Ffynonellau ystadegau; a
- WebTAG.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn croesawu'r syniadau ar gyfer nodiadau cynghori a gafwyd gan yr ymatebwyr.

Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o wybodaeth. Byddwn yn cynnal gweithdai i ddefnyddwyr a sesiynau am y gwersi a ddysgwyd i benderfynu ar natur a chynnwys

y nodiadau cynghori y gofynnwyd amdanynt yn y broses ymgynghori ac a gyhoeddir yn y dyfodol.

Caiff dolenni at wybodaeth ddefnyddiol eu rhoi ar dudalen WelTAG ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Hyfforddiant a chymorth

**Cwestiwn 4: A oes unrhyw feysydd ble y byddech yn teimlo bod hyfforddiant a chymorth ychwanegol o help?**

| Ydw | Nac ydw | Dim ateb / ansicr |
|---|---|---|
| 11 (48%) | 5 (22%) | 7 (30%) |

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn , er i bron eu hanner gredu y byddai hyfforddiant a chymorth canlynol yn ddefnyddiol:

- Enghreifftiau wedi'u gweithio;
- Help ar agweddau technegol;
- Templedi;
- Proses, gofynion ac allbynnau; a
- Sut i wneud cais i amrywiaeth o fathau o gynlluniau.

Roedd un ymatebydd yn teimlo na fyddai diben i ragor o hyfforddiant nes bod yr ymarferwyr yn defnyddio'r arweiniad; credai y byddai fforwm ar-lein yn ddefnyddiol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn nodi y byddai rhai ymatebwyr yn credu y gallai hyfforddiant a chymorth ychwanegol fod yn ddefnyddiol. Ar ôl lansio WelTAG 2017, byddwn yn ystyried cynnal gweithdai rheolaidd i ymarferwyr, rhannu arferion da, gweithio ar enghreifftiau a rhoi help ar gyfer llenwi arfarniadau WelTAG.

Byddai'n anodd sicrhau ar fforwm ar-lein bod y cyngor yn gyson a chywir. Os oes angen help ar bobl, gallen nhw e-bostio desg gymorth WelTAG i gael cyngor ac enghreifftiau o arferion gorau.

## Sylwadau eraill

### Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr arweiniad hwn?

Roedd gan 74% o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol i'w gwneud. Yn ogystal, caiff nifer o sylwadau a wnaed o dan gwestiwn 2 eu hateb yma gan nad oedden nhw'n ymwneud â chwestiwn 2.

Y brif ddogfen

- Pryder y byddai rhoi'r gorau i gynnal dadansoddiad pur o gost a budd yn golygu y caiff cynlluniau eu hasesu mewn ffordd llai gwrthrychol a mwy gwleidyddol
- Dim cyfle i ddangos bod yr heddlu wedi cael eu holi am faterion diogelwch y ffyrdd
- Defnyddio'r gair 'achos' yn y camau; mae'r achosion yn ddryslyd
- Nid yw'r gwahaniaeth rhwng achos masnachol ac ariannol yn glir
- Y gwahaniaeth rhwng Cam 2 a Cham 3 yn aneglur
- Beth yw ystyr 'mewnbynnau gwirioneddol' o dan fonitro a gwerthuso
- Ni ddylid newid enw'r Grŵp Adolygu i'r Grŵp Herio, ond yn hytrach i'r 'Grŵp Sicrhau' neu'r Grŵp Llywio'
- Mae'r diffyg arweiniad technegol yn golygu nad yw'n glir beth sydd ei angen
- Mae angen eglurder ynghylch alinio WelTAG 2017 â cham datblygu'r cynllun
- Rôl y Grŵp Adolygu
- Cyfeiriad at asesu'r effeithiau statudol
- Dim cyfeiriad at yr allbynnau sydd eu hangen e.e. Tablau Crynhoi'r Arfarniad
- Nid yw'n glir sut caiff y cynlluniau eu cymharu â'i gilydd
- Arweiniad ar sut i ddelio â 'rhestrau hir' mawr iawn
- Cyfuno camau 1, 2 a 3 ar gyfer cynlluniau llai
- Cysoni'r derminoleg â'r model 5 achos rhag creu dryswch
- Cyfeiriad at y Ddeddf Teithio Llesol
- Eglurder ynghylch pa arfau y dylai pobl eu defnyddio e.e. WebTAG, DMRB ac ati
- Ei gwneud yn glir y dylai IAR WelTAG gynnwys tystiolaeth o'r 5 achos.

Penderfyniadau ariannu

- dylai'r broses fidio gynnwys cyflwyno adroddiadau ar y camau perthnasol
- dylai'r arian ariannu'r 5 cam

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn croesawu'r ymatebion ychwanegol a wnaed gan yr ymatebwyr. Byddwn yn ceisio eu hateb trwy wella'r arweiniad terfynol, nodiadau technegol a gweithdai i ddefnyddwyr rheolaidd.

## Y camau nesaf

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth adeiladol a deallus a gafwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn defnyddio'r adborth gwerthfawr hwn i wneud gwelliannau i WelTAG 2017 a'n helpu wrth gynhyrchu arweiniad ategol a darparu hyfforddiant a gweithdai yn y dyfodol.